CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 12fed o RAGFYR 2022** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Llys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Y Dirprwy Faer, Cyng. John Lee yn Cadeirio'r Cyfarfod ac yn croesawu'r Aelodau

YN BRESENNOL :
Cyng. John Lee - Cadeirydd

Cyng. Terry Jones
Cyng. Henry D. Jones
Cyng. T. Victor Hughes
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Richard Parry
Cyng. Ieuan G. Davies

HEFYD YN BRESENNOL :
Cynghorydd Sir : Dylan W. Rees (TEAMS)
Paul Ellis

Clerc : H. Rhys Parry **Asiant :** Mr. W.G. Hughes
Cymhorthydd : Ms.Linda Powell **Heddlu:** PC Howell John Owens

Cyfarfod yn cael ei Recordio

22/160 Ymddiheuriadau : Maer y Dref, Cyng. Non W. Parry
Cyng. Arwel Môn Hughes Cyng. Margaret Thomas,
Cyng. Eleri Lloyd Burns Cyng. Gwenan Ll. Evans.
Cyng. Christine Roberts

22/161 Datganiad o Ddiddordeb : Dim

22/162 1 **Heddlu Gogledd Cymru : PC2052 Howell John Owens** yn cyflwyno ei hun fel Rheolwr Rhawd Cymunedol yn yr ardal yma ac yn gweithio gyda'r PCSO's i ddatrys problemau o fewn y Gymuned. PC Owens yn awyddus i wybod am unrhyw gwyn neu bryderon yn ardal Llangefni. Clerc yn rhoi gwybod i PC Owens o'r canlynol :

- Lladrad Blodau o Botiau'r Dref - PC Owens am ddilyn i fynnu'r Datganiad Swyddogol;
- Neuadd y Sir, Llangefni - Adeilad wedi ei wneud yn ddiogel yn dilyn torri'r fynedfa;
- Gweledigaeth CCTV - PCSO's yn galw yn rheolaidd i edrych ar y Camerâu;
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol o gwmpas Capel y Fynwent, Lon Newydd - PC Owens am edrych ar hyn a chadw llygaid ar y safle.

Cadeirydd a'r Clerc yn diolch i PC Owens am ei fewnbwn i'r Cyfarfod a bydd yn cael gwahoddiad i'r Cyfarfod Llawn yn fisol.

22/163 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 14.11.2022
Cyng. Ieuan G. Davies yn Cynnig a Cyng. Richard Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

22/164 I Ystyried Materion yn codi o Gofnodion 14.11.2022
1 Cyng. J. Egryn Lewis yn holi am yr Eitemau, fel a ganlyn :

PARHAD 22/164

Tudalen 1 – Eitem 22/128 : Sedd Wag : Dyddiad cau wedi dod i ben a dim enwau wedi eu derbyn.

Tudalen 2 - Eitem 22/134.2 : Cysylltu'r Teledu Smart - Gwaith ar y gweill gyda Chwmni OES.

22/165 I Ystyried Argymhellion Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 05.12.2022

Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig y Cofnodion fel rhai cywir. Yn dilyn absenoldeb Aelodau heno, nid oedd Eilydd i'r Cofnodion uchod. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

Gweithredu o'r Cofnodion 05.12.2022 :

Eitem 22/156 – Uwchraddio'r Goleuadau Nadolig 2023 – I edrych ar yr opsiynau ar gyfer Nadolig 2023;

Eitem 22/157 - Darpariaeth a Chynllunio'r Precept : Argymell arweiniad gan y Cyngor Llawn ar gyfer paratoi ffigwr y Precept ac i gymeradwyo cynnydd am y flwyddyn 2023-2024, oherwydd costau uwch. Yn dilyn trafodaeth, argymell disgwyl derbyn Amcangyfrif Nifer y Tai, yn ystod yr wythnosau nesaf, gan Cyngor Sir Ynys Môn, cyn symud ymlaen. **Derbyn**

22/166 Cynllunio

1 Cyflwynwyd Cofnod o Gyfarfod Pwyllgor Cynllunio 06.12.2022

Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, Cyng. Ieuan Davies yn arwain yr Aelodau trwy'r Rhestr o Geisiadau/Ymgynghoriadau Cynllunio.

2 Ymgynghoriad Cynllunio/Cais : FPL/2022/173 – Newid defnydd tir amaethyddol i leoli 32 caban gwyliau …. Lon Penmynydd : Cyng. Davies yn esbonio fod y cais yma yn sylweddol, a bod cyfle i'r holl Aelodau rhoi eu barn ymlaen heno.

Yn dilyn trafodaeth a phleidlais **PENDERFYNWYD** rhoi sylwad i wrthod y Cais am y rhesymau canlynol : Pryderon ynglŷn â'r effaith ar y dref; Datblygiad hollol ormodol i ofynion y dref - angen mwy o dai fforddiadwy; Pryderon Llifogydd. Bydd y sylwadau uchod yn cael eu hanfon ymlaen i Gyngor Sir Ynys Mon.

22/167 Eitem Arbennig – Y Fynwent : Cyng. Victor Hughes yn trosglwyddo'r eitem i'w gyflwyno gan Mr. Gwyn Hughes, Asiant.

1 Cyflwyniad gan Mr. G. Hughes, Asiant : Crynodeb gan yr Asiant ar y sefyllfa bresennol i symud ymlaen a chyflwyno Cais Cynllunio. Asiant yn arwain yr Aelodau trwy'r camau presennol yn ymwneud ac Asesiad Risg ac Ymgynghoriad Ecoleg. Yn dilyn anfon tri thendr allan at Ecolegwyr, dim ond un pris sydd wedi ei dderbyn.

Yn dilyn trafodaeth, ac er mwyn symud ymlaen cyn gynted ag y bo modd, awgrymwyd y canlynol gan yr Asiant :

- Cyflwyno Cais Cynllunio mor fuan a phosib;
- Mynd ymlaen i benodi Ecolegwyr yn dilyn derbyn yr Ymgynghoriad Ecoleg;
- Trefnu i gael Asesiad o'r Coed gan Arbenigwr Coed;
- I geisio derbyn barn Arbenigwr Amaethyddol o'r tir wedi cael eu glustnodi ar gyfer datblygu.

PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion uchod a gofyn i'r Asiant weithredu ar hyn.

2 Llwybr Cyhoeddus - Hawl tramwy trwy'r Dingle : Cyng. Victor Hughes yn adrodd, fod Swyddog o Gyngor Sir Ynys Mon wedi mynychu Cyfarfod Grŵp Adfywio Llangefni 06.12.2022, i rannu gwybodaeth am Grantiau fydd ar gael. Gan fod llwybr hawl tramwy yn rhedeg trwy tir Penlan, i ystyried y posibilrwydd yn y dyfodol, o gyd-weithio gyda Cyngor Sir Ynys Mon.

Cyng. Victor Hughes yn cynnig arwain ar yr uchod gyda Swyddog o Gyngor Sir Ynys Mon.

Derbyn

22/168 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebion y Maer :

Cyflwynwyd yr isod gan y Cadeirydd, er gwybodaeth :

1 Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen / Canu Carolau – 02.12.2022;

2 Cystadleuaeth Arddangosfa Ffenestr Nadolig – Canlyniadau wythnos yn dechrau 19.12.2022;

PARHAD 22/168

3 Clwb Rotary – Gwasanaeth "*Tree of Lights"* – 6.30y.h. Eglwys St. Cyngar – 16.12 2022;

4 Sul y Maer – 25.09.2022 - Ysgol y Graig – Nodyn o ddiolch am y Cyfraniad gan y Maer.

22/169 Materion yn codi gan Aelodau :

1 **Cyng. Christine Roberts - Goleuadau Nadolig :** Yn absenoldeb Cyng. Roberts, Y Clerc yn datgan ei phryder, fod llawer o gwynion wedi eu rhoi ar Dudalennau Facebook ynglŷn â safon y Goleuadau Nadolig eleni. Yr Aelodau yn ymwybodol ac yn gefnogol i gadw'r costau i lawr eleni ac yn cydnabod canmoliaeth fod y Cyngor Tref wedi gwneud ymdrech o dan y sefyllfa ariannol eleni. Cyng. Egryn Lewis yn awyddus i glustnodi. arian yn Precept 2023-2024 ar gyfer adnewyddu a gwella'r Goleuadau Nadolig yn 2023. **PENDERFYNWYD** derbyn argymell Cyng. Lewis.

22/170 Adroddiad y Clerc
Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:

1 **Trosglwyddiad Cae Criced :** Cyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr yn ymwybodol erbyn hyn fod y taliad i'r Bargyfreithiwr wedi ei wneud ar yr amod fod y Cyngor Tref yn derbyn yr Adroddiad. Aelodau yn siomedig iawn fod yr Adroddiad dal heb ei derbyn a bod angen gwneud cwyn swyddogol am yr oedi. Cyng. Richard Parry am edrych i mewn i hyn a dod ac ateb yn ôl i'r Cyfarfod Llawn ar 16eg o Ionawr 2023. **PENDERFYNWYD** os nad fydd ymateb boddhaol i law erbyn y Cyfarfod Llawn nesaf, bydd y Swyddfa yn edrych ar y broses o wneud cwyn swyddogol am ddiffyg gweithredu.

2 **Uwchraddio'r Goleuadau Nadolig 2023 :** Wedi ei drafod yn Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol 05.12.2022.

3 **Cyngor Sir Ynys Môn - Pwyllgor Safonau :** Llongyfarchiadau i Cyng. Margaret Thomas ar gael ei hethol ar Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn.

4 **Swyddfa : Gwyliau Nadolig 2022 :** Swyddfa ar gau o 21ain o Ragfyr 2022 ac yn ail-agor Dydd Mawrth 3ydd Ionawr 2023. Clerc yn cadarnhau bydd hysbysiadau o'r dyddiadau yn cael eu harddangos ar Safle We, Tudalen Facebook a Rhybudd yn ymddangos yn ffenestri Swyddfa'r Cyngor Tref.

22/171 Adroddiadau pwyllgorau allanol

1 **Cyfarfod Cyngor Coleg Llangefni - 22.11.2022 :** Cyng. Richard Parry yn adrodd fod y safle o safon uchel iawn gyda chyfleusterau ardderchog i bobl ifanc. Cyng. Parry yn awyddus i drefnu ymweliad o gwmpas y campws i Aelodau'r Cyngor Tref. Aelodau yn cytuno a **PHENDERFYNWYD** gofyn i Cyng. Parry wneud y trefniadau priodol ar gyfer flwyddyn nesaf.

2 **Canolfan Glanhwfa – Bore Agored 19.11.2022 :** Er Gwybodaeth.

3 **Cyfarfod Grŵp Adfywio Llangefni - 06.12.2022 :** Cyng. Victor Hughes yn adrodd mai Mr. Haydn Edwards ydyw Cadeirydd Newydd o'r Grŵp. Cyng. Egryn Lewis yn gofyn a bydd Cofnodion ar gael yn dilyn y Cyfarfod. Er gwybodaeth, Clerc yn adrodd bod yr holl Aelodau wedi cael gwahoddiad i'r Cyfarfod. Dim Trafodaeth pellach. **Derbyn**

22/172 Cyllid

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Tachwedd 2022**
Cadeirydd yn adrodd, os bu unrhyw fater yn codi o'r uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod. Clerc yn adrodd fod Cyng. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa ynglŷn â'r Fantolen ac wedi derbyn eglurhad gan y Clerc. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Tachwedd.

PARHAD 22/172

2 **Taliadau Sul y Cofio : Lluniaeth/Band Pres Porthaethwy :** Cyng. Victor Hughes yn tynnu sylw at y gwariant uchod a'r angen edrych ar y gyllideb wrth drefnu'r Achlysur yn y dyfodol.. Clerc yn ymateb fod y trefniadau yn draddodiadol ers rhai blynyddol, Cyng. Hughes yn awgrymu ail-ystyried y gwariant a bod Eitem yn cael ei gynnwys ar Raglen y Cyfarfod Llawn yn fuan flwyddyn nesaf i ddilyn hyn i fynnu. **PENDERFYNWYD** derbyn cais Cyng. Hughes.

22/173 Adroddiad Misol Cyngor Sir Ynys Môn

Cynghorydd Dylan W. Rees yn adrodd ar y canlynol:

- Cyfarfod Grŵp Adfywio Llangefni - Cyflwyniad Grantiau gan Mr. Dewi Lloyd, Cyngor Sir Ynys Môn;
- (Os bu Cynrychiolydd y Cyngor Tref ddim yn gallu mynegi Cyfarfodydd Grŵp Adfywio, fod Aelod arall yn sefyll i mewn i gynrychioli'r Cyngor Tref);
- Hybu Busnesau lleol trwy dynnu lluniau a rhoi fideo at ei gilydd ar gyfer Tudalen Facebook;
- Rhannu'r Moto Pêl Droed "Together Stronger";
- Llinellau Gwyn wedi cael eu peintio o gwmpas y stryd gydag arweiniad tuag at fannau parcio anabl a.y.b.
- Gwaith ar Ysgol Corn Hir yn symud ymlaen – gobeithio bod yn barod erbyn Pasg 2023;

Cyng. Paul Ellis yn adrodd fod parcio am ddim yn y dref yn ystod cyfnod y Nadolig.

22/174 Gohebiaeth a Materion Newydd

1 **Cyngor Sir Ynys Môn - Gwahardd Traffig - Lon Cae Garw, Llangefni -** Manylion wedi eu hanfon i'r Aelodau trwy e-bost - er gwybodaeth.

22/175 Gohebiaeth : Er Gwybodaeth
Materion wedi eu hanfon trwy e-bost yn ystod Mis Tachwedd 2022 :

1 **Un Llais Cymru** **-** Derbyn
2 **Materion Eraill** **-** Derbyn

22/176 I Ystyried Unrhyw Fater Brys gan y Maer : Dim

22/177 Dyddiad y Cyfarfod Llawn nesaf : Nos Lun 16eg o Ionawr 2023

1 Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan pryder fod cyfarfod Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae 28ain o Dachwedd 2022 wedi ei ganslo oherwydd bod dim Quorum a bod yn amser hir cyn y Cyfarfod nesaf o'r Is-bwyllgor.
Clerc yn esbonio, oherwydd yr uchod, fod Eitem Arbennig wedi ei gynnwys ar Raglen Cyfarfod Llawn heno, er mwyn gwneud penderfyniadau i'r Asiant symud ymlaen , fel y trafodwyd o dan Eitem 22/167 o'r Rhaglen. **Derbyn**

Cyng. John Lee yn dymuno Nadolig Llawen i'r Aelodau a Staff.

CYNG. JOHN LEE
CADEIRYDD